# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Hydref 2021

1 **Cwestiwn ar unrhyw adeg ar gyfer yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas (Dirprwy Arweinydd): 2021/20 - Lleoliad Tipio Anghyfreithlon**

**Gofynnodd y Cynghorydd R Mogford:**

A allai'r Aelod Cabinet ymhelaethu ar ei ateb a roddwyd yn y Cyngor Llawn ddydd Mawrth 28 Medi fel isod:

1. Beth yw'r llinell amser i gael gwared ar y tipio anghyfreithlon eithafol yn y "Ffordd i nunlle"?
2. Er mwyn i mi osgoi cyfeirio at y lleoliad hwn fel uchod yn y dyfodol; beth yw'r enw neu'r cyfeiriad cywir y dylid ei ddefnyddio ar gyfer y ffordd hon a fabwysiadwyd gan y priffyrdd?

**Ymatebodd y Cynghorydd R Jeavons:**

Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, dyfarnwyd contract ar gyfer symud gwastraff ym mis Medi. Ni fyddwn yn trafod dyddiadau penodol gweithgareddau gweithredol oherwydd nifer o ymchwiliadau parhaus.